**Hawdd ei Ddeall**

Mynediad at Wleidyddiaeth
Access to Politics
Rhwydwaith Llawr Gwlad
Grassroots Network

Disability Wales
Anabledd Cymru

# Am y Prosiect Mynediad i Wleidyddiaeth




Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Anabledd Cymru**. Mae'n fersiwn Hawdd ei Ddeall o '**Cyflwyniad Mynediad at Wleidyddiaeth**'.

**Chwefror 2025**

# Sut i ddefnyddio'r llyfryn yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Anabledd Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:


**Gwefan:** www.disabilitywales.org

**E-bost:** info@disabilitywales.org

**Ffôn**: 029 20 887 325


Mae **Hawdd ei Deall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

**Rhif trwydded Photosymbols 403527247**.

# Beth sydd yn y llyfryn yma

**Am y prosiect yma** ..... **4**

Ein nodau ..... 5

**Sut fydd y prosiect yn gweithio** ..... **6**

1.Rhwydwaith Gwleidyddiaeth Pobl Anabl Trawsbleidiol ..... 6

2.Siarter Mynediad i Wleidyddiaeth Cymru ..... 7

3.Pecynnau Offer Arfer Gorau ..... 7

4.Siarad dros bobl fyddar ac anabl ..... 8

**Dysgu mwy** ..... **9**

# Am y prosiect yma

Fy enw i ydy Kat Watkins. Rydw i'n gweithio ar y **Prosiect Mynediad i Wleidyddiaeth** yn **Anabledd Cymru**.




Mae gwleidyddiaeth yn meddwl sut mae pobl yn gweithio tuag at gael beth maen nhw'n meddwl sy'n iawn. A phenderfynu ar y deddfau a'r rheolau ar gyfer sut i redeg gwlad, tref neu gymuned.




Dydy pobl fyddar ac anabl ddim bob amser wedi bod yn rhan o wleidyddiaeth. Mae ein prosiect eisiau newid hyn.



Fe fydd y prosiect yma yn parhau gyda gwaith **Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig Cymru**. Roedd y gwaith yma yn helpu mwy o bobl fyddar ac anabl i ymuno â gwleidyddiaeth nag o'r blaen:

- Etholiadau **Senedd** 2021 ac
- Etholiadau **Llywodraeth Leol** 2022.

## Ein nodau




Mae ein prosiect eisiau:



- Helpu mwy o bobl fyddar ac anabl i gymryd diddordeb mewn gwleidyddiaeth.



- Helpu mwy o bobl fyddar ac anabl i sefyll mewn etholiad.



- Helpu pobl i ymuno â gwleidyddiaeth yng Nghymru.

# Sut fydd y prosiect yn gweithio

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae **Llywodraeth Cymru** yn rhoi arian i helpu'r prosiect yma. Fe fydd y prosiect yn helpu pobl fyddar ac anabl mewn gwahanol ffyrdd, fel:

## 1. Rhwydwaith Gwleidyddiaeth Pobl Anabl Trawsbleidiol

Fe fydd hyn yn:



- Rhoi help i bobl fyddar ac anabl gan bobl eraill fel nhw.



- Helpu pobl i ddysgu am wleidyddiaeth a sut i ddod yn ymgeisydd.



- Rhoi hyfforddiant a chyngor.

## 2. Siarter Mynediad i Wleidyddiaeth Cymru



Fe fydd hyn yn:

- Cael ei ysgrifennu gyda phobl fyddar ac anabl.



- Dangos i bleidiau gwleidyddol y ffyrdd gorau o gynnwys pobl fyddar ac anabl.



- Gofyn i bob plaid wleidyddol yng Nghymru ddilyn y Siarter.

## 3. Pecynnau Offer Arfer Gorau

Fe fydd y rhain yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol, fel:



- Sut i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth.



- Sut i sefyll mewn etholiad.

## 4. Siarad dros bobl fyddar ac anabl

Fe fydd hyn yn:



- Gwneud yn siŵr bod pobl fyddar ac anabl yn gallu cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth.




- Dilyn **Erthygl 29** o **Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl**. Mae'r rheol yma yn dweud y dylai pobl anabl allu cymryd rhan ym mhob rhan o fywyd, fel gwleidyddiaeth, gwaith ac ysgol.

# Dysgu mwy



Os ydych chi'n fyddar neu'n anabl ac eisiau dysgu mwy am wleidyddiaeth, rydych chi'n gallu cysylltu gyda fi:

**E-bost**: kat.watkins@disabilitywales.org